

# Public Document Pack

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.  
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich  
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please  
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

### **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B)**

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu (B) Hybrid Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr O Bell Trwy Timau Microsoft ar **Dydd Mawrth, 2 Ebrill 2024** am **10:00**.

### **AGENDA**

1. Ethol Cadeirydd  
Ethol cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn
2. Ymddiheuriadau am absenoldeb  
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
3. Datganiadau o fuddiant  
Derbyn datganiadau o ddidordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
4. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 14  
Derbyn i'w cymeradwyo Cofnodion cyfarfod SC B Deddf Trwyddedu 2003 o 27/06/2023 a 25/09/2023 ac o Drwyddedu SC B dyddiedig 31/01/2024.
5. Caniatáu Trwydded Cerbyd Hurio Preifat 15 - 18
6. Materion Brys  
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.
7. Gwahardd y Cyhoedd

Ffôn/Tel: 01656 643643

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Facs/Fax: 01656 668126

Twitter@bridgendCBC

Ebost/Email: [talktous@bridgend.gov.uk](mailto:talktous@bridgend.gov.uk)

Gwefan/Website: [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk)

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Nid oedd y cofnodion sy'n ymwneud â'r eitem canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

8. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

19 - 36

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion eithrio cyfarfod y 31 01 24

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet\_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643696

Yn ddiffuant

**K Watson**

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

Cynghorwyr

H T Bennett

S Easterbrook

H Griffiths

Cynghorwyr

RM James

P W Jenkins

R J Smith

Cynghorwyr

R Williams

Presennol

Y Cynghorydd R Williams – Cadeirydd

H T Bennett  
P W Jenkins

S Easterbrook

H Griffiths

RM James

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R J Smith

Swyddogion:

Mark Galvin  
Yvonne Witchell

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau  
Rheolydd Tîm Trwyddedu

27. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd S Easterbrook fuddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda sef ei fod yn adnabod yr ymgeisydd.

28. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor dyddiedig 3 Ionawr 2023 fel cofnod gwir a chywir.

29. MATERION BRYD

Dim

30. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNIAD O dan adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad At Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol o fusnes gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 o ran 4 a pharagraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf. Ar ôl cymhwyso'r prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem a oedd wedi'i dan grybwyll yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth iddynt sydd wedi'i eithrio fel y nodwyd uchod.

31. APPROVAL OF EXEMPT MINUTES

32. CANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT

33. CANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT

34. CANIATÁU TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A CHERBYD HURIO PREIFAT

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) GYNHALIWIYD  
YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-  
BONT AR OGWR, CF31 4WB DYDD LLUN, 25 MEDI 2023 AT 10:00

Presennol

Y Cynghorydd HT Bennett – Cadeirydd

H Griffiths

RM James

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

Swyddogion:

Nimi Chandrasena	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth
Kirsty Evans	Uwch Swyddog Trwyddedu
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Andrea Lee	Uwch Cyfreithiwr

69. PENODI CADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Cynigiodd a chytunodd yr aelodau bod y Cynghorydd Heidi Bennett yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor B - Deddf Drwyddedu 2003

70. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

71. CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD AR GYFER 11-13 CAROLINE STREET, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 1DN

Cyflwynodd Swyddog y Polisi Trwyddedu yr adroddiad, a diben hwn oedd penderfynu ar gais a dderbyniwyd oddi wrth Amber Taverns Ltd am drwydded safle newydd yn 11-13 Stryd Caroline, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 1DN.

Dywedodd fod y cais i'w weld yn Atodiad A i'r adroddiad.

Gellid gweld y cynllun oedd gyda'r cais sy'n manylu ar y safle trwyddedig yn Atodiad B.

Disgrifiodd yr ymgeisydd y safle fel:

“Tafarn Canol y Dref gyda gwasanaeth bar”.

Roedd y cais yn amlinellu:

Gwerthu Alcohol (i'w yfed ar y safle ac oddi arno) ac Adloniant Rheoledig yn ffurf Ffilmiau (dan do), Cerddoriaeth Fyw (Dan Do), Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Dan Do), Perfformiad Dawns (Dan Do) ac unrhyw beth o Ddisgrifiad Tebyg ( Dan do):

Dydd Llun i ddydd Iau:	9 y bore tan hanner nos
Dydd Gwener a dydd Sadwrn:	9 y bore tan 1 o'r gloch y bore
Dydd Sul:	9 y bore tan 1 o'r gloch y bore

Amseroedd Anarferol

O ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan hyd ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Awr ychwanegol: Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, Y Dydd Iau cyn Dydd Gwener y Groglith, Dydd Gwener, Dydd Sadwrn a Dydd Sul bob penwythnos Gŵyl y Banc, Dydd San Padrig a Dydd Gŵyl Ddewi.

Darparu Lluniaeth Hwyr y Nos (dan do ac yn yr awyr agored):

Dydd Llun i ddydd Iau:	11p.m. tan hanner nos
Dydd Gwener a dydd Sadwrn:	11p.m. tan 1 o'r gloch y bore
Dydd Sul:	11p.m. tan hanner nos

Amseroedd Anarferol

O ddiwedd yr oriau a ganiateir ar Nos Galan hyd ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Awr ychwanegol: Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan, Y Dydd Iau cyn Dydd Gwener y Groglith, Dydd Gwener, Dydd Sadwrn a Dydd Sul bob penwythnos Gŵyl y Banc, Dydd San Padrig a Dydd Gŵyl Ddewi.

Roedd yr oriau agor y gofynnwyd amdanynt hanner awr yn hwyrach na'r amseroedd gweithgaredd trwyddedadwy y gofynnwyd amdanynt i greu amser gorffen yfed o 30 munud, gyda'r un amseroedd anarferol y gofynnwyd amdanynt.

Mae'r amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr ymgeisydd ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu i'w gweld yn Adran 18 y cais.

Derbyniwyd chwe chynrychiolaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, un gan Heddlu De Cymru a 5 gan bobl eraill. Roedd copïau o fanylion y cynrychioliadau hyn i'w gweld yn Atodiadau C a D (yr adroddiad).

Cyfeiriwyd at gerddoriaeth yn ystod y dydd yn rhai o'r cynrychioliadau a dylid nodi bod cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio wedi eu dadreoleiddio'n rhannol.

Cynigiwyd hefyd nad oes angen awdurdodiad (trwydded) i gynnal cerddoriaeth fyw mewn 'gweithle' rhwng 8a.m. ac 11p.m. o flaen cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl.

Awgrymwyd hefyd nad oes angen awdurdodiad ychwaith i gynnal cerddoriaeth wedi'i recordio mewn safle trwyddedig sydd wedi ei awdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, rhwng 8a.m. a 11p.m. gerbron cynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl.

Dylid ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â cherddoriaeth ar yr adegau hyn o dan ddeddfwriaeth iechyd yr amgylchedd ar wahân sy'n ymwneud â niwsans sŵn.

Cyfeiriwyd hefyd at roi caniatâd i osod byrddau a chadeiriau ar y briffordd; er nad oedd hyn yn ystyriaeth i'r Is-bwyllgor. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gael caniatâd gan yr adran berthnasol o'r Cyngor fydd yn cynnwys proses ymgeisio ar wahân.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ers cyhoeddi'r adroddiad roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i gefnogi ei gais oedd wedi cael ei hanfon i Is-bwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 cyn y cyfarfod hwn. Roedd y wybodaeth ychwanegol hon yn cynnwys:

Fideo o ddelweddau cynt ac wedyn o adeiladau eraill y mae Amber Taverns wedi eu cymryd drosodd

Dogfen bolisi ar Gyffuriau  
Cofnod Hyfforddi Peiriannau Hapchwarae  
Dogfennau Asesu Risg  
Polisi Gwasgaru

Ar ôl cysylltu â'r ymgeisydd, tynnodd yr Heddlu eu sylwadau ar y cais yn ôl. Cytunodd yr ymgeisydd i ddiwygio ei gais i osod amodau y cytunwyd arnynt gyda'r Heddlu. Roedd yr amodau y cytunwyd arnynt ychydig yn wahanol i'r rhai oedd wedi eu cynnwys yng nghynrychiolaeth wreiddiol yr Heddlu (yn dilyn cyngor cyfreithiol). Anfonwyd union eiriad yr amodau hyn eto i Is-bwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 ond yn gryo roeddent yn ymwneud â:

Gwerthu alcohol yn dechrau am 10a.m. ac eithrio ar gyfer digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol lle byddai'n dychwelyd i 9a.m. Bod deiliad trwydded bersonol ar gael yn ystod gweithgareddau o'r fath.

O leiaf 2 oruchwylydd drws i gael eu cyflogi yn y safle ddydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul cyn Gŵyl y Banc a phob amser anarferol o 9p.m. tan amser cau.

Yn ôl disgrisiwn Heddlu De Cymru (gyda 7 diwrnod o rybudd) ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr, caiff pob diod ei thywallt i gynwysyddion polycarbonad di-wydr neu blastig. Yr eithriad yw pan fydd pobl yn eistedd yn bwyta pryd bwyd sylweddol, te neu goffi.

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y cais gan roi sylw i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 o Ddeddf Drwyddedu 2003, y cais, y cyflwyniadau a'r sylwadau oedd ger eu bron.

Dywedodd Rheolwr Cydymffurfiaeth Amber Taverns mai cwmni gwlyb oedd Amber Taverns oedd yn berchen ar fwy na 160 o safleoedd ledled y wlad gan gynnwys De Cymru.

Dywedodd fod ganddynt fusnesau yn cael eu rhedeg yn yr Alban, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Dywedodd Rheolwr Cydymffurfiaeth fod y sefydliad wedi bod yn prynu eiddo manwerthu segur yn ddiweddar, er enghraifft Burton's ar Stryd Caroline oedd yn wag, ac wedi bod yn adnewyddu'r rhain i'w troi'n dafarndai. Soniodd fod rhai o'r safleoedd yr oeddent wedi eu cymryd drosodd wedi bod yn wag ers saith neu wyth mlynedd. Yn achos hen siop Burton's, roedd hi'n deall mai ers 2022 yn unig yr oedd hon wedi bod yn wag.

Dywedodd Rheolwr Cydymffurfiaeth Amber Taverns eu bod wedi prynu 10 eiddo yn ystod y tair blynedd ddiwethaf ac mai eu bwriad oedd gwario dros £175,000 ar ddatblygu hen siop Burton's.

Dywedodd fod gan y cwmni raglen hyfforddi helaeth, yn cynnwys llawlyfr hyfforddi ond hefyd darpariaeth hyfforddiant ar-lein. Dywedodd fod hyfforddiant ar-lein yn cael ei ailosod yn aml, o leiaf bob chwe mis, lle roedd her 25 yn y cwestiwn. Pan ddisgwyliid digwyddiad chwaraeon mawr, roedd yr hyfforddiant wedi'i gynllunio i gael ei ailosod eto fel bod y staff yn ymwybodol o werthiannau dan oed a pheidio â gwasanaethu pobl oedd wedi yfed gormod o alcohol.

Soniodd eu bod yn gweithredu ar sail cael rheolwr ardal sy'n gyfrifol am uchafswm o 12 tafarn fel arfer, y mae ef/hi yn gofalu amdanynt, gyda'r potensial i dyfu i 15 neu 16 tafarn. Dywedodd fod hyn yn cael ei wneud i sicrhau bod y rheolwr ardal yn gallu bod yn gwbl ymarferol wrth reoli unrhyw un o safleoedd trwyddedig Amber Taverns. Dywedodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth yr hoffent fuddsoddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'u bod yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o redeg eu busnes yng nghanol y dref.

Gofynnodd aelod a oedd y cwmni'n cefnogi'r bragdai lleol.

Ymatebodd Rheolwr Ardal Amber Taverns fod gan y cwmni gyfrif cenedlaethol gyda Heineken. Dywedodd nad oedd mwyafrif eu cyflenwad yn dod o fragdai lleol. Dywedodd, o safbwynt cwrw casgen, eu bod yn ymdrechu i gefnogi bragwyr lleol o ran cael mathau bragu casgen lleol i mewn i gynifer o adeiladau ag y gallent. Dywedodd nad oedd hyn bob amser yn bosibl o ystyried cyfrifon a phrisiau, gan fod y cwmni'n adolygu cyflenwyr o safbwynt ymyl elw a phroffidioldeb. Sicrhaodd yr aelodau eu bod bob amser yn gwneud eu gorau glas i gael cyflenwadau o fragdai lleol lle roedd hynny'n briodol.

Gofynnodd aelod mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed ynghylch agosrwydd y safle trwyddedig arfaethedig at Siop Fferyllydd Boots. Dywedodd, gan ei bod yn debygol bod yna bolisiau a hyfforddiant, y gallai'r Awdurdod fod yn gyfarwydd â hwy neu ddim, ar gael i'r cyhoedd, o ran gweithredu safleoedd trwyddedig, gofynnodd i gynrychiolwyr Amber Taverns egluro eu hyfforddiant ynghylch hynny a sut i osgoi'r risg honno.

Ymatebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth gan ddweud bod pob tref yn hollol wahanol, ac felly bod hyfforddiant yn cael ei dargedu'n briodol yn hyn o beth. Dywedodd fod gweithwyr, cyn agor unrhyw eiddo, yn derbyn hyfforddiant helaeth ar y bar a'r tiliau. Cynhelid hyfforddiant ar Her 25, peidio â gwasanaethu cwsmeriaid meddw, a throsedd ac anhrefn. Dywedodd ei bod yn ofynnol i staff hefyd gwblhau hyfforddiant ar-lein cyn agor a rhedeg y busnes.

Dywedodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth hefyd y byddai'r gweithredwr wedyn yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw staff newydd a gyflogid yn dilyn hyfforddiant ac yn cwblhau o leiaf 45 tudalen gyntaf y llawlyfr hyfforddi, gan gwblhau'r adrannau o dan Her 25 yn arbennig a pheidio â gwasanaethu cleientiaid meddw, cyn iddynt ddechrau gweithio y tu ôl i'r bar.

Holodd aelod faint o staff yr oeddent yn rhagweld y byddent yn eu cyflogi ar sail amser llawn neu ran amser.

Atebodd y Rheolwr Ardal drwy ddweud mai dim ond un person y byddai'r cwmni'n ei gyflogi'n uniongyrchol fel Gweithredwr pob tafarn, oedd yn cael ei ddisbarthu fel unigolyn hunangyflogedig. Yna, byddai'r Gweithredwr yn cyflogi'r aelodau o staff ar gyfer y sefydliad, yn seiliedig ar ei faint a'i anghenion busnes, ac yn y blaen.

I bob pwrpas, byddai Amber Taverns yn cyflogi un person o safbwynt cenedlaethol. Dywedodd y byddai'r rhagweld y byddai'r Gweithredwr yn cyflogi 10 i 15 aelod o staff. Felly, o ran creu swyddi yn yr ardal leol y rhagdybiaeth fyddai tua 10 i 15 o weithwyr.

Holodd aelod a oedd cyfyngiad ar oedran gweithiwr a gâi ei recriwtio, sef 18-21 oed.

Atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth nad oedd y cwmni'n gwahaniaethu ar sail oedran. Roedd eu gweithredwr ifanc cyntaf yn 21 oed tra roedd eu gweithredwr hynaf ar hyn o bryd yn 73 oed. Dywedodd eu bod yn cyflogi gweithredwr â phrofiad sydd yn ei dro yn cyflogi staff o wahanol oed. Dywedodd eu bod yn hoffi'r ffaith fod canolfan waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan y byddent yn troi at y ganolfan waith i argymhell staff addas.

Gofynnodd aelod, er eglurder, a oedd dim bwriad i weini bwyd yn y lleoliad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth na fyddent yn gweini bwyd. Fodd bynnag, eu bwriad oedd gweini lluniaeth hwyr y nos yn ffurf te a choffi.

Holodd y Cadeirydd a oedd y cwmni'n bwriadu ymuno â chynllun gyda Heddlu De Cymru a deiliaid trwydded eraill a adwaenir o bosibl fel cynllun gwarchod tafarndai lleol ac atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ei fod yn mynnu bod eu sefydliad yn ymuno â chynllun o'r fath.



Diolchodd Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd. Dywedodd fod y Cyngor Tref yn benderfynol o wrthwynebu caniatáu'r drwydded ar y sail fod y busnes arfaethedig yn anghydnaws ag ethos Stryd Caroline, a ystyrir fel yr ail o brif strydoedd siopa manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod y gwrthwynebiad yn deillio o'r pwyntiau a ganlyn:

Mae'r Cyngor Tref o'r farn nad yw cyflwyno busnes tafarn wlyb yn unig yn gydnaws â'r dyheadau ar gyfer cadw ethos a chyfanrwydd prif stryd siopa. Er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd yn flaenorol yn y cyfarfod am seddi allanol, credir y byddai 32 sedd yn ormodol ac na fyddai modd eu goruchwyllo'n ddigonol. Teimlir ei bod yn hysbys bod safle o'r fath yn dueddol o ddenu elfen fwy annymunol a swnlyd o bosibl, gydag ysmygwyr yn ymgynnull ar y palmant allanol gan arwain at adael llanast o weddillion sigarêts a sbwriel fyddai'n amharu ar amgylchedd dymunol i gerddwyr ac ymwelwyr siopa. Dywedodd nad oedd dim yn y cais i ddangos pa mor aml y gellid glanhau ardal allanol o'r fath.

Ychwanegodd y Cynghorydd Tref fod yna oblygiad i'r holl siopau sydd yn y cyffiniau ar hyn o bryd gan eu bod eisoes yn dioddef lefelau sylweddol o ddwyn o siopau a theimlai y gallai'r sefydliad newydd fod yn fan cadw golwg i ddrwgweithredwyr posibl.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Tref fod y Cyngor Tref yn annog yr awdurdod trwyddedu i ystyried yn ddifrifol oblygiadau hirdymor y math hwn o fusnes ac a yw'n gwneud unrhyw beth o gwbl i wella'r strydlyn a'r amgylchedd siopa yng nghanol y dref.

Am y rhesymau a nodir uchod, sydd wedi cael eu hystyried yn ofalus iawn, mae'r Cyngor Tref yn haeru y dylid gwrthod y cais yn ei ffurf bresennol.

Atebodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r rhan allanol, bod yna ddull helaeth o reoli'r rhan hon. Dywedodd mai yn ei gamau cynllunio yr oedd hyn gan y byddai trwydded palmant coffi yn gais hollol wahanol a bod ysmegu yn weithgaredd trwyddedadwy. Mewn gwirionedd, gallai pobl ysmegu yn unrhyw le ar Stryd Caroline. Dywedodd fod gan y cwmni system deledu cylch cyfyng digidol o'r radd flaenaf a fyddai'n cwmpasu tu mewn a thu allan yr adeilad, gan gynnwys y toiledau ac eithrio'r ciwbiclau. Byddai gan y sefydliad restr wirio iechyd a diogelwch wythnosol, oedd yn cynnwys gwirio'r larwm tân a'r goleuadau argyfwng.

Dywedodd y byddai gwiriadau'r system TCC yn cael eu cynnal yn ddyddiol ac yr adroddid amdanynt bob wythnos. Dywedodd Rheolwr Cydymffurfiaeth fod y teledu cylch cyfyng yn rhedeg am o leiaf 31 diwrnod ac nad oedd modd ymyrryd ag ef.

Wrth gloi, cyfeiriodd y Rheolwr Ardal at bwynt blaenorol a wnaed gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ynghylch maint yr ardaloedd sy'n cael eu rhedeg gan reolwyr ardal a dywedodd fod yr ardaloedd yn eithaf bychan o gymharu â nifer o'u cystadleuwyr, sy'n caniatáu iddynt gael cymryd rhan yn y gwaith o reoli pob safle o ddydd i ddydd. Rhannodd y gallai gerdded i mewn i lawer o dafarndai yn ei ardal a'i fod yn adnabod y cwsmeriaid lleol a fynychai eu safle'n ddigon da fel y gallai gael sgwrs ddiffuant â hwy, oherwydd eu bod hwythau hefyd yn ei adnabod ef gan ei fod yn ymweld yno'n aml.

Dywedodd eu bod yn hoffi cyflogi pobl leol i redeg tafarndai lleol, oedd wedyn yn rhoi cipolwg i'r cwmni ar ardaloedd lleol a'i fod yn gymorth iddynt gymryd rhan ymhellach yn y gymuned leol.

Gofynnwyd i'r gwrthwynebwyr am sylwadau i gloi a dywedwyd nad oedd dim.

Penderfynwyd nad oedd ar y panel o gynghorwyr angen cyngor pellach gan y Swyddog Polisi Trwyddedu na'r Swyddog Cyfreithiol.

Ailgynullodd y Panel i wneud eu penderfyniad ac ar ôl hynny roedd yr holl bartïon i gael gwybod am y penderfyniad terfynol gan yr aelodau.

#### **PENDERFYNWYD:**

Cytunodd yr Is-bwyllgor i benderfynu ar y cais gyda golwg ar Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref dan Adran 182 o Ddeddf Drwyddedu 2003, y cais, y cyflwyniadau a'r cynrychioliadau ger eu bron.

IS-BWYLLGOR (B) DEDDF DRWYDDEDU 2003  
CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD AR GYFER 11-13 STRYD CAROLINE, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 1DN

#### **Hysbysiad o Benderfyniad**

Ar y 25ain o Fedi cynhaliodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu (LSC) wrandawriad i benderfynu ar gais am drwydded safle newydd ar gyfer 11-13 Stryd Caroline, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1DN. Yn bresennol yn y gwrandawriad roedd Swyddogion, yr Ymgeisydd a gwrthwynebydd, sef y Cynghorydd David Unwin o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

#### **Y Deunydd gerbron yr Is-bwyllgor**

Roedd gan yr Is-bwyllgor adroddiad ger ei fron gan y Swyddog Trwyddedu, ynghyd â gwrthwynebiadau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Rachel Bell, Rheolwr y Ganolfan, Eileen Schofield, Cadeirydd BMTA, y Cynghorydd Freya Bletsoe, Dave Easterbrook - Busnes Pen-y-bont yn erbyn Troseddu. Mynegodd yr Heddlu wrthwynebiadau hefyd ond wedi hynny daethant i gytundeb gyda'r Ymgeisydd ar amodau ychwanegol i'w gosod ar y drwydded ac o ganlyniad tynnwyd y gwrthwynebiadau yn ôl.

Wrth gyflwyno'r adroddiad eglurodd y Swyddog Trwyddedu fanylion y cais am y Drwydded newydd.

Eglurodd yr Ymgeiswyr i'r Is-bwyllgor y byddai'r Rheolwr Ardal yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y safle ac yn penodi gweithredwr oedd yn hunangyflogedig ac y byddai'r gweithredwr hwnnw wedyn yn cyflogi gweddill y staff oedd eu hangen ar gyfer y safle. Eglurwyd y byddai 10/15 aelod newydd o staff yn cael eu cyflogi. Eglurwyd hefyd y byddent yn gweithredu polisi her 25 ac yn ymuno â gwarchod tafarndai. Hysbysodd yr Ymgeiswyr yr Is-bwyllgor y byddai'r holl staff yn derbyn hyfforddiant helaeth ar y bar a'r tiliau, gwarchod tafarndai a pholisi her 25.

Gwnaeth y Cynghorydd Unwin sylwadau fod y sefydliad arfaethedig yn anghydnaws ag ethos Stryd Caroline. Eglurodd nad oedd, fel tafarn wlyb yn unig, yn cyd-fynd â stryd siopa, yn ogystal byddai ysmygwyr yn ymgynnull y tu allan i'r eiddo ac roedd yn bryderus ynghylch amllder glanhau y tu allan i'r eiddo. Esboniodd hefyd ei fod yn bryderus am broblem dwyn o siopa yng nghanol y dref ac y gallai'r eiddo fod yn fan cadw golwg i ddrwgweithredwyr. Anogodd yr Is-bwyllgor i ystyried y goblygiadau hirdymor yn ddifrifol a gwrthod y cais.

#### **Penderfyniad**

Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i'r Is-bwyllgor hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol ac yn arbennig, atal trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd. Mae'r LSC wedi

ystyried yr holl sylwadau perthnasol a wnaed gan yr Ymgeisydd a'r Gwrthwynebwy. Mae'r LSC hefyd wedi cymryd i ystyriaeth bod yr Heddlu, ar ôl trafod gyda'r Ymgeisydd a chytuno ar amodau newydd ar y drwydded, bellach wedi cael eu bodloni.

Ni chymerodd yr LSC i ystyriaeth nifer o faterion a godwyd gan y gwrthwynebwy am nad oeddent yn sylwadau perthnasol o dan y Ddeddf Drwyddedu, nodwyd bod yr holl wrthwynebwy yn anhapus bod y cais arfaethedig am drwydded safle gwlyb ac roedd arnynt eisiau i'r ymgeiswyr ystyried gweini bwyd. Fodd bynnag mater i'r ymgeiswyr oedd p'un a oeddent am weini bwyd yn yr eiddo neu beidio ac nid oedd gan yr LSC rym i orfodi amod o'r fath.

Yn ogystal, cododd y gwrthwynebwy hefyd y mater o ddwyn o siopau sy'n broblem gyffredin yng nghanol y dref, a chredent y byddai'r eiddo hwn yn ychwanegu at y broblem. Canfu'r LSC nad oedd tystiolaeth y byddai caniatáu trwydded ar gyfer yr eiddo hwn yn cynyddu'r broblem bresennol o ddwyn o siopau yng nghanol y dref mewn unrhyw fodd.

Nododd yr LSC hefyd fod yr holl wrthwynebwy wedi codi'r pwynt bod yr eiddo wedi'i leoli gyferbyn â Siop Fferyllydd Boots. Dywedent y gallai hyn arwain at gwsmeriaid yn osgoi'r fferyllydd a'r troseddau posibl a allai ddilyn o hynny. Canfu'r LSC nad oedd tystiolaeth i gefnogi'r ddamcaniaeth hon a bod llawer o safleoedd trwyddedig wedi cael eu lleoli gyferbyn ac wrth ymyl siopau fferyllwyr ac nad oedd dim yn y Ddeddf Drwyddedu i atal hyn. Nodwyd hefyd nad oedd gwrthwynebiad wedi dod oddi wrth Boots yn Stryd Caroline na'u Prif Swyddfa.

Wrth ystyried yr holl wrthwynebiadau a'r sylwadau gan yr Heddlu, mae'r LSC wedi penderfynu na fyddai caniatáu trwydded yn tanseilio'r amcanion Trwyddedu, yn amodol ar yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt gan yr Heddlu.

Mae'r LSC wedi penderfynu caniatáu'r Drwydded yn amodol ar yr amrywiadau a gytunwyd gyda'r Heddlu fel a ganlyn:-

#### "Cyffredinol

Bydd gwerthu alcohol yn dechrau am 10:00 o'r gloch.

Os bydd unrhyw ddigwyddiad chwaraeon rhyngwladol cydnabyddedig yn cael ei ddarlledu ar y teledu, megis Cwpan Rygbi'r Byd, Cwpan y Byd FIFA, Teithiau Llewod Prydain ac Iwerddon, ac yn y blaen sydd y tu allan i'r oriau a ganiateir ar hyn o bryd ar y Drwydded Safle, caniateir dechrau gwerthu alcohol un awr cyn yr amser gwerthu alcohol presennol. Dylid hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu a Heddlu De Cymru yn electronig am fanylion y digwyddiad o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw.

Nid yw Digwyddiadau Bocsio ar y Teledu yn dod o dan yr amod hon.

Bydd o leiaf un deiliad trwydded bersonol ar gael tra bydd alcohol yn cael ei gyflenwi neu ei werthu yn ystod gweithgareddau o'r fath.

#### Trosedd ac Anhrefn

Mae 2 Oruchwyliwr Drws o leiaf i gael eu cyflogi yn yr eiddo ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul cyn Gŵyl y Banc a phob diwrnod o dan yr Amrywiadau Tymhorol o 21:00 tan amser cau.

Yn ôl disgrisiwn Heddlu De Cymru, lle rhoddir 7 diwrnod o rybudd, ar ddiwrnodau a ystyrir yn ddigwyddiadau chwaraeon mawr, megis Gemau Rygbi Rhyngwladol y 6 Gwlad, Gemau Rhyngwladol yr Hydref, Cwpan Rygbi'r Byd, Rygbi'r Llewod Prydeinig, Cwpan Pêl-droed y Byd, Pencampwriaethau Pêl-droed Ewropeaidd, caiff pob diod ei thywallt i gynwysyddion di-wydr neu blastig / polycarbonad. Yr eithriad yw pan fydd pobl yn eistedd yn bwyta pryd bwyd sylweddol, te neu goffi.



COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 31 IONAWR 2024 AT 10:00

Presennol

Y Cynghorydd R Williams – Cadeirydd

H T Bennett

S Easterbrook

H Griffiths

RM James

P W Jenkins

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R J Smith

Swyddogion:

Julie Ellams

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Stephen Griffiths

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Andrea Lee

Uwch Cyfreithiwr

Yvonne Witchell

Rheolydd Tîm Trwyddedu

**41. Cymeradwyaeth Cofnodion**

Y Penderfyniad Wnaed	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor dyddiedig 22/08/2023 fel cofnod gwir a chywir
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	31 Ionawr 2024

**42. Gwahardd y Cyhoedd**

Y Penderfyniad Wnaed	O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i eithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf. Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem ganlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyriwyd bod budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad, yn yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r eitem, yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth. 24 Ionawr 20
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	31 Ionawr 2024

**43. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio****44. Caniatáu Trwyddedau Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat****45. Gwrandawriad Disgyblu - Gyrrwr Cerbyd Hacni A Cherbyd Hurio Preifat**

<b>Meeting of:</b>	<b>LICENSING SUB-COMMITTEE (B)</b>
<b>Date of Meeting:</b>	<b>2 APRIL 2024</b>
<b>Report Title:</b>	<b>GRANT OF A PRIVATE HIRE VEHICLE LICENCE</b>
<b>Report Owner / Corporate Director:</b>	<b>CHIEF OFFICER – LEGAL AND REGULATORY SERVICES, HR AND CORPORATE POLICY</b>
<b>Responsible Officer:</b>	<b>KIRSTY EVANS LICENSING TEAM MANAGER</b>
<b>Policy Framework and Procedure Rules:</b>	<b>The report content has no direct effect upon the policy framework and procedure rules.</b>
<b>Executive Summary:</b>	<b>For the Licensing Sub-Committee to consider an application for the grant of a private hire vehicle licence which falls outside the Licensing Committee guidelines</b>

## 1. Purpose of Report

- 1.1 The purpose of this report is to ask Members to determine an application for the grant of a private hire vehicle licence which falls outside of the Licensing Committee’s age policy guidelines.

## 2. Background

- 2.1 It is the duty of the Local Authority to determine applications made under the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 and Town Police Clauses Act 1847. These applications are referred to the Licensing Sub-Committee for determination where the application falls outside policy guidelines. This application is made under Section 46 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976.

## 3. Current situation / proposal

- 3.1 The Council has received an application from Mr Karl Svensen to licence the following vehicle as a private hire vehicle:

### 3.2

Make	Mercedes Benz
Model	S 350 D L AMG Line Premium A 4 door
Fuel Type	Diesel
Date of First registration	30 June 2018

Colour	Black
Mileage recorded at last MOT inspection	27,564
Registration No	RJ18 PFO
Passengers	4
Type approval category	M1
Accessible Vehicle	No

- 3.3 The age policy guidelines adopted by the Licensing Committee on 17 November 2020 to take effect from February 2021 are as follows and are published on the Council's website:

“AGE POLICY GUIDELINES

Vehicles submitted for licensing for the first time must be less than 5 years old from the date of first registration;

The only exception to the above is that Minibus type vehicles fitted with permanent automated tail lifts submitted for licensing for the first time must be less than 10 years old from the date of first registration;

Vehicles aged up to 10 years old at the time of application will be tested twice a year;

Vehicles aged over 10 years old at the time of application will be tested three times per year;

Fleet Services will issue an MOT Certificate and Declaration of Fitness Form covering the taxi and private hire vehicle elements which fall outside the MOT process;

Vehicles will be tested in accordance with the Freight Transport Association – National Inspection Standards for Hackney Carriage and Private Hire Vehicles.

If you fail to submit an application to renew a vehicle licence in time, provided a completed application is received within five days of the expiry date the requirement for a vehicle to be presented to Committee is waived.

Applications for converted or modified vehicles outside the M1 Vehicle Type approval category must be accompanied by a full-service history and appropriate safety certification including a Voluntary Individual Vehicle Approval (IVA) Certificate issued by the Driving and Vehicle Standards Agency (DVSA).

If you are in any doubt about whether a vehicle falls within policy guidelines please email us for advice before you make a financial commitment.”

- 3.4 At the time of writing the report the requested vehicle is 5 years and 8 months old.
- 3.5 As the vehicle falls outside the age policy guidelines by being over 5 years old the Committee is requested to determine the application.



3.6 The vehicle will be presented to Committee for inspection on the day of the hearing.

#### **4. Equality implications (including Socio-economic Duty and Welsh Language)**

4.1 An initial Equality Impact Assessment (EIA) screening has identified that there would be no negative impact on those with one or more of the protected characteristics, on socio-economic disadvantage or the use of the Welsh Language. It is therefore not necessary to carry out a full EIA on this policy or proposal.

#### **5. Well-being of Future Generations implications and connection to Corporate Well-being Objectives**

5.1 The well-being goals identified in the Act were considered in the preparation of this report. It is considered that there will be no significant or unacceptable impacts upon the achievement of well-being goals/objectives as a result of this report.

#### **6. Climate Change Implications**

6.1 There are no climate change implications arising from this report.

#### **7. Safeguarding and Corporate Parent Implications**

7.1 There are no safeguarding and corporate parent implications arising from this report.

#### **8. Financial Implications**

8.1 There are no financial implications arising from the report.

#### **9. Recommendations**

9.1 Having regard to the report, the Guidelines adopted by the Licensing Committee and any representations made by Mr. Svensen the Sub-Committee is requested to determine this application.

#### **Background documents**

None.

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A  
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank